



Gallwch lawrlwytho'r lluniau yn rhad ac am ddim o www.freebibleimages.org ar ffurf PowerPoint, Keynote, JPEG neu PDF. Mae'r Cynllun Stori yma yn dangos be sy'n digwydd ym mhob rhan o'r hanes. Darllenwch yr hanes yn y Beibl ac wedyn penderfynwch sut dych chi am gyflwyno'r stori. Mae yna le i chi sgwennu nodiadau. Gallwch ddileu unrhyw luniau/sleidiau nad ydych chi am eu defnyddio, ac ychwanegu lluniau eich hun fel bydd angen.

Disgrifiad	Llun	Nodiadau
------------	------	----------

1 Brenhinoedd 19: 15-21



- 1 Dwedodd yr Arglwydd wrth Elias i eneinio Eliseus i gymryd ei le ef fel proffwyd.



- 2 Roedd Eliseus a'i deulu yn byw yn Abel-mechola yng ngwlad Israel. Ahab oedd y brenin yno, a Jesebel oedd ei wraig. Roedd Jesebel wedi bygwth lladd Elias.



- 3 Dyma Elias yn dod o hyd i Eliseus fab Shaffat yn aredig. Roedd un deg dau o barau o ychen yno i gyd, ac roedd Eliseus yn gweithio gyda'r pâr olaf.



-
- 4 Dyma Elias yn mynd heibio ac yn taflu ei glogyn dros Eliseus wrth basio. Roedd hyn yn arwydd fod Duw wedi dewis Eliseus i gymryd lle Elias fel proffwyd.



-
- 5 A dyma Eliseus yn gadael yr ychen a rhedeg ar ôl Elias.



-
- 6 Dwedodd wrtho, "Plîs gad i mi fynd i ffarwelio â dad a mam, ac wedyn dof i ar dy ôl di." A dyma Elias yn ateb, "lawn, dos yn ôl, ond meddylia di beth dw i newydd ei wneud i ti!"



-
- 7 Felly dyma Eliseus yn mynd yn ei ôl. Lladdodd y ddau ychen oedd ganddo, a defnyddio'r gêr a'r iau i wneud tân gyda nhw. Coginiodd y cig ar y tân, a dyma bobl y pentref i gyd yn cael bwyta.



-
- 8 Yna dyma fe'n mynd ar ôl Elias, i fod yn was iddo. Wrth fod yn was i Elias fe fyddai'n dysgu sut i wasanaethu Duw yn ffyddlon.



9 Cyfieithwyd gan
www.beibl.net



THE WORD IN PICTURES

www.freebibleimages.org
